2019

# Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff

YN ECONOMI CYMRU

Gweler yr adroddiad llawn ar wefannau'r Gymdeithas Ffisiolegol a GuildHE.

## Proffil o'r Farchnad Lafur

### FFEITHIAU ALLWEDDOL AM WYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF YNG NGHYMRU

Mae Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff (SES) yn rhan bwysig iawn o economi'r DU, ac mae Chwaraeon Cymru yn amcangyfrif bod gweithgaredd sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn cynhyrchu gwariant o £1.2 biliwn i economi Cymru yn unig.1 Mae dealltwriaeth ffisiolegol yn sail i ddatblygiadau mewn hyfforddiant chwaraeon, perfformiad ac iechyd; yn union fel y mae athletwyr a hyfforddwyr yn ceisio gwella perfformiad a lleihau anafiadau, mae graddedigion SES yn ymwneud â disgyblaethau mor amrywiol ag addysg iechyd, ymchwil i effaith ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol, atal clefydau, a chanlyniadau ôl-driniaethol.

Yn 2017, roedd myfyrwyr SES yn cael eu cyflogi mewn tua **750,000 o swyddi** mewn sectorau diwydiant yng Nghymru. Rhagwelir **twf o 2%** yn y sectorau hyn yn ystod y degawd nesaf. Yn ôl yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA), roedd tua **3,125 o fyfyrwyr** wedi cofrestru i astudio pynciau SES yng Nghymru ym Mlwyddyn Academaidd (BA) 2017-18. Mae'r myfyrwyr hyn yn debygol o gael eu cyflogi mewn galwedigaethau sydd ar gynnydd. Y llynedd yn unig, **hysbysebodd cyflogwyr Cymru tua 2,440 o swyddi** a oedd yn galw am set sgiliau SES. Mae'r canfyddiadau hyn, ac eraill a welir yn y ffigurau isod, yn dangos bod SES yn chwarae rhan bwysig yn economi Cymru.


1. Gweler http://sport.wales/ymchwil-a-pholisi/themâu-ymchwil/gwerth-chwaraeon.aspx?lang=cy&

### Y PRIF SECTORAU DIWYDIANT AR GYFER GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF

Mae Ffigur 1 yn dangos y swyddi presennol a disgwyliedig yng Nghymru mewn sectorau diwydiant - Ffigur 1.3 yn yr adroddiad llawn.

- Mae gan Gymru tua 750,000 o swyddi mewn sectorau diwydiant sy'n cyflogi myfyrwyr SES, a rhagwelir twf o 2% yn y sectorau hyn yn y degawd nesaf.
- Addysg ac ymchwil yw'r is-sector diwydiant sy'n cyflogi'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr SES. Ar hyn o bryd, dim ond tri is-sector arall sydd â mwy o swyddi, a rhagwelir cynnydd o 500 yn nifer y swyddi yn yr is-sector dros y deng mlynedd nesaf.
- Gwelir y nifer mwyaf o swyddi yn yr is-sector diwydiant manwerthu a'r is-sector diwydiant iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cyntaf yn cyflogi 12% o fyfyrwyr SES BA 2016-17.

FFIGUR 1 : Y SWYDDI PRESENNOL A'R SWYDDI DISGWYLIEDIG YNG NGHYMRU AR GYFER Y PRIF SECTORAU DIWYDIANT* SY'N CYFLOGI MYFYRWYR SES, 2017 A 2027




Ffynhonnell: Data Marchnad Lafur Ch1 2019 Emsi.

*Mae diwydiannau'n wahanol i alwedigaethau gan fod diwydiannau yn cyfeirio at gynnyrch terfynol y sefydliad, tra mae galwedigaethau yn cyfeirio at dasg benodol neu gyfres o dasgau a gyflawnir gan weithiwr.

The Physiological Society


GuildHE

## PRIF GRWPIAU GALWEDIGAETHAU GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF

Mae Ffigur 2 yn dangos y swyddi presennol a disgwyliedig yng Nghymru mewn grwpiau galwedigaethau - Ffigur 1.1 yn yr adroddiad llawn.

- Mae gan Gymru tua 530,000 o swyddi mewn grwpiau galwedigaethau sy'n cyflogi myfyrwyr SES, a rhagwelir twf o 2% yn y grwpiau hyn yn y degawd nesaf.
- Y grŵp galwedigaethau diwylliant, y cyfryngau a chwaraeon, y grŵp sy'n cyflogi'r gyfran fwyaf o fyfyrwyr SES, sydd â'r nifer lleiaf o swyddi yng Nghymru o'r grwpiau galwedigaethau SES. Er hyn, mae mwy o grynodiad o raddedigion SES yn y grŵp galwedigaethau hwn, a rhagwelir twf o 7% mewn nifer sylweddol o swyddi (13,700) yn ystod y deng mlynedd nesaf.
- Y grŵp galwedigaethau gweinyddiaeth a gwasanaeth elfennol sydd â'r nifer mwyaf o swyddi o'r grwpiau galwedigaethau. Mae'r grŵp galwedigaethau hwn yn cyflogi tua 5% o fyfyrwyr SES.

FFIGUR 2 : Y SWYDDI PRESENNOL A'R SWYDDI DISGWYLIEDIG YNG NGHYMRU AR GYFER Y PRIF GRWPIAU GALWEDIGAETHAU* SES, 2017 A 2027





Ffynhonnell: Data Marchnad Lafur Ch1 2019 Emsi.

Gallwn hefyd edrych ar grwpiau galwedigaethau SES yn nhermau hysbysebion swyddi. Mae'r data swyddi yn Ffigur 2 yn ddefnyddiol oherwydd y dull casglu data safonedig, ond mae data hysbysebion yn darparu ar gyfer gofynion swyddi SES mwy teilwredig. Pan fydd hysbysebion swyddi'n cael eu didoli gan y rhai sy'n hysbysebu ar gyfer set sgiliau SES, gwelwn y canlynol:

- Y llynedd, hysbysebodd cyflogwyr yng Nghymru 2,440 o swyddi a oedd angen sgiliau SES.
- Dengys Ffigur 3 bod tua 30% o'r swyddi SES yng Nghaerdydd. Mae Casnewydd ac Abertawe'n dilyn, ag 11% a 7%, yn y drefn honno.
- Y prif deitlau swyddi ar gyfer galwedigaethau SES yw gweithiwr cymorth i deuluoedd, hyfforddwr personol, athro/athrawes addysg gorfforol, hyfforddwr a chynorthwyydd graddedig.
- Ymhlith y prif gyflogwyr sy'n hysbysebu galwedigaethau SES mae GLL, Care Management Group, Serco Leisure, a gwasanaethau addysg amrywiol fel Prospero Teaching a Superprof.

FFIGUR 3 : HYSBYSEBION SWYDDI UNIGRYW YNG NGHYMRU YN ÔL TREF A DINAS AR GYFER GALWEDIGAETHAU SES,* GORFFENNAF 2018 – MEHEFIN 2019




Ffynhonnell: Data Hysbysebion Swyddi Ch1 2019 Emsi.

* Mae diwydiannau'n wahanol i alwedigaethau gan fod diwydiannau yn cyfeirio at gynnyrch terfynol y sefydliad, tra mae galwedigaethau yn cyfeirio at dasg benodol neu gyfres o dasgau a gyflawnir gan weithiwr.